

## **Cyngor Cymuned Llanfair a Chellan Community Council**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned ar nos Iau 19eg o Fedi 2024 am 7.30yh yn Neuadd Cellan.

The next Community Council meeting will be held on Thursday evening 19<sup>th</sup> September 2024 at 7.30pm at Cellan Hall.

### **AGENDA'R CADEIRYDD / CHAIRMAN'S AGENDA**

**Croeso'r Cadeirydd / Chairman's Welcome**

**Materion Personol / Personal Matters**

**Ymddiheuriadau / Apologise**

**1. Datgelu Buddiannau Personol / Declare Personal Interests**

**2. Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes**

**3. Materion yn Codi / Matters Arising**

- a. Peilonnau a Twrbeinni Gwynt / Pylons and Wind Turbines
- b. Cinio Blynyddol / Annual Dinner
- c. Sul y Cofio / Remembrance Sunday
- d. VE Day 80<sup>th</sup> Year – 8<sup>th</sup> May 2025
- e. Bws Cymunedol / Community Bus

**4. Gohebiaeth / Correspondence**

- a. Cyllid o £1.5 miliwn ar gyfer Hybiau Diogel a Chynnes ledled Cymru / £1.5 Million Funding for Safe and Warm Hubs Across Wales

**5. Ceisiadau am Arian a Thaliadau / Requests for Money and Payments**

- a. Ambwilans Awyr Cymru / Welsh Air Ambulance
- b. Gwefan / Website Hosting, Domain Name & SSL Certificate - £274.36

**6. Cyfrifon / Accounts**

- a. Codiad Cyflog / Pay Scale Rise
- b. Presept / Precept

**7. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

- a. 9fed o Ionawr / 9<sup>th</sup> January @ Neuadd Cellan Hall

**CYNGOR CYMUNED LLANFAIR CLYDOGAU A  
CHELLAN COMMUNITY COUNCIL**

Cyfarfod yn Neuadd Cellan am 7.30yh 19eg o Fedi 2024 /  
Meeting held at Cellan Hall on the 19<sup>th</sup> September 2024 at 7.30pm

**Yn bresennol / Present:** Cyng Roger Daniel (Cadeirydd), Cyng Dafydd Jones, Cyng Dai Jones, Cyng Dave Bartholomew, Cyng Rocky Hobbs, Cyng Eryl Evans  
Simon Aldridge

**Ymddiheiriadau / Apologise:** Cyng Rhys Williams, Cyng Dewi Williams, Cyng Rhydian Davies

**Materion Personol/Personal Matters:** Dim / None

<b>1.</b>	<b><u>Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests</u></b> Nid oedd neb yn datgelu buddiant personol. <i>Nobody declared a personal interest.</i>	
<b>2.</b>	<b><u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u></b> Cadarnhawyd cofnodion mis Gorffennaf yn gywir gan y Cyng Dai Jones ac eiliwyd gan y Cyng Dafydd Jones. <i>The July minutes were agreed as a true record by Cllr Dai Jones and seconded by Cllr Dafydd Jones.</i>	
<b>3.</b> a.	<b><u>Materion yn Codi / Matters Arising</u></b> <b>Peilonnau a Twrbeinni Gwynt / Pylons and Wind Turbines.</b> Fe wnaeth Cyng Bartholomew a Cyng Eryl Evans fynychu cyfarfod yn Llanddewi Brefi gyda Belltown. Dyma'r adborth o'r cyfarfod gan Cyng Bartholomew:  Roeddwn i yn y gweithdy. Roedd y cynghorau cymuned ymhlith y rhai a wahoddwyd i fod yn bresennol, a mynychais ar ran Cellan a Llanfair a hefyd oherwydd fy mod wedi bod yn edrych i mewn i gyllid cymunedol a gynigiwyd gan Bute ar gyfer y cylchlythyr.  Yn gyntaf, doedd neb (yn ein grŵp ni o leiaf) mewn unrhyw ffordd o blaid y fferm wynt. Credaf fod hyn wedi'i ddatgan yn glir. Y ddadl 'ffafriol' agosaf oedd os yw'r fferm wynt yn mynd yn ei blaen yna dylai'r cymunedau sicrhau eu bod yn uchafu unrhyw daliadau gan y cwmni. Fel y gwelir, ni theimlwyd bod y cynnig presennol yn arbennig o dda nac yn ymarferol. Wedi bod yn bresennol, tybed a fyddai unrhyw ymgysylltiad o'r math hwn yn rhoi awgrym o 'dderbyn' y prosiectau. Rwy'n meddwl, ie, y gellid ei weld felly, ac er fy mod yn cytuno y dylai rhywun fod 'wrth y bwrdd', yn cynrychioli'r cymunedau pe bai'r ffermydd gwynt yn cael eu hadeiladu, gwn na fyddwn yn gyfforddus yn y rôl honno wrth symud ymlaen.	

Pwynt arall a godwyd oedd nad yw'r hyn sy'n cael ei gynnig yn fodel o berchnogaeth gymunedol fel yr awgrymir yn aml. Mae perchenogaeth o'r fath yn dechrau gyda menter a gyflwynir gan y gymuned eu hunain yn hytrach na menter a osodir arnynt. Yn sicr ni fyddai'n cyfyngu ar eu perchnogaeth cyfranddaliadau fel y gwna'r model hwn. Byddent yn cael cyfran llawer mwy o'r elw o'r hyn a fyddai'n fenter fusnes eu hunain.

Amlygodd yr union drafodaeth ar sut i rannu'r cronfeydd cymunedol yn amlwg wahanol anghenion a blaenoriaethau pob cymuned yr effeithir arni. Gallai hyd yn oed dyrannu cyllid o'r fath ar draws sawl cymuned a chaniatáu iddynt eu dyrannu a'u dosbarthu, achosi rhwyg yn hawdd a gosod y cymunedau hynny yn erbyn ei gilydd. Tybed a yw'r model ariannu cymunedol ei hun yn peri risgiau i gydlyniant cymunedol, a allai fod yn rheswm arall i wrthsefyll y datblygiadau.

Yn olaf, tynnwyd sylw at y ffaith nad yw cynllun Bute (sy'n union yr un fath hyd y gwelais) yn rhwymol ac nid oes unrhyw sicrwydd o unrhyw daliadau yn y dyfodol. Codais y cwestiwn (yn uniongyrchol i Belltown ac Ynni Cymunedol Cymru – sydd hefyd wedi cyfarfod/gweithio gyda Bute/GreenGen) ynghylch pa warantau a allai fod gan y cynllun hwn. Yn ôl y disgwyl nid oes dim. Awgrymwyd gan Ynni Cymunedol Cymru, y gellid llunio cytundeb, ond yna nodwyd ymhellach na fyddai'n gyfreithiol rwymol, rhyw fath o 'gytundeb bonheddig' os mynnwch. Mae'n debyg eu bod wedi gwneud hyn o'r blaen ond nid ar gyfer y math hwn o brosiect. Mae'r awgrym o gytundeb ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi nad yw'n gyfreithiol rwymol yn fy nrysu ond nid yw'r ffaith y cyfeiriwyd ato fel y cyfryw yn fy ngwneud yn hyderus ynghylch gwarantau yn y dyfodol.

Efallai y bydd modelau ariannu cymunedol yn cael eu newid yn sylweddol i'w gwneud yn ddeniadol i ystod eang o bobl (gan gynnwys cael eu teilwra'n benodol i amgylchiadau cymunedol unigol ac nid fersiynau 'off-y-sil' syml o argymhellion y llywodraeth). Neu efallai, yn syml iawn y cânt eu gorfodi wrth i'r ffermydd gwynt a'r peilonau gael eu gosod. Pa ffordd bynnag y mae'n mynd, ar ôl mynychu'r digwyddiad, nid yw'r cynnig hwn yn ymddangos i mi yn ddeniadol nac yn rheswm da dros gefnogi datblygiadau.

Awgrymodd y Cynghorydd Bartholomew alwad dros zoom gyda'r holl Gynghorau Cymuned ar hyd llwybr y Peilon. Dywedodd hefyd fod Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan yn drafftio datganiad o fwriad. Y

Clerc i anfon e-bost at bob Cyngor Cymuned i weld beth yw eu teimladau ar y syniad hwn.

*Cllr Bartholomew and Cllr Eryl Evans attended a meeting at Llanddewi Brefi held by Belltown and this is the feedback given by Cllr Bartholomew:*

*The report, in fairness, does look like a reasonable summary of what was fed back to Belltown in answer to the questions, but it misses some significant feedback to them outside of that.*

*Firstly, no one (in our group at least) was in any way in favour of the wind farm. This I believe was clearly stated. The nearest 'favourable' argument was that if the wind farm does go ahead then the communities should ensure that they maximise any payments from the company. As can be seen, the existing offer was not felt to be particularly good nor practical. Having attended, I wonder if any engagement of this type would give a suggestion of 'acceptance' of the projects. I think, yes, it could be seen as such, and although I agree someone should be 'at the table', representing the communities in the event that the wind farms are built, I know I would not be comfortable in that role going forward.*

*Another point raised was that what is being offered is not a model of community ownership as is often suggested. Ownership of that kind starts with an initiative put forward by the community themselves not one imposed upon them. Certainly it would not restrict their share ownership as this model does. They would reap a far greater share of the profits from what would be their own business venture.*

*The very discussion of how to share the community funds highlighted starkly the different needs and priorities of each community affected. Even allocating such funds across several communities and allowing them to allocate and distribute them, could easily cause division and set those communities in opposition to each other. I wonder if the community funding model itself poses risks to community cohesion, which may be another reason to resist the developments.*

*Finally, it was pointed out that the Bute scheme (which is exactly the same as far as I could see) is not binding and there is no guarantee of any future payments. I raised the question (directly to Belltown and Community Energy Wales – who also have also met/worked with Bute/GreenGen) as to what guarantees this scheme might have. As expected there are none. It was suggested by Community Energy*

	<p><i>Wales, that an agreement could be drawn up, but then further noted that it would not be legally binding, a sort of ‘gentleman’s agreement’ if you like. Apparently they have done this before but not for this type of project. The suggestion of a written and signed agreement which is not legally binding confuses me but the fact it was referred to as such does not make me confident of future guarantees.</i></p> <p><i>Perhaps community funding models will undergo significant change to make them attractive to a broad range of people (including being specifically tailored to individual community circumstance and not simple ‘off-the-shelf’ versions of government recommendations). Or perhaps, they will simply be imposed as the wind farms and pylons are imposed. Whatever way it goes, having attended the event, this proposal does not seem to me to be attractive nor a good reason to support developments.</i></p> <p><i>Cllr Bartholomew suggested a zoom call with all Community Council’s along the Pylon route. He also said that Lampeter Town Council were drafting a statement of intent. Clerk to email all Community Council’s to see what their feelings are on this idea.</i></p>	
<p><b>4.</b></p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p> <p>d.</p> <p>e.</p>	<p><b>Gohebiaith/Correspondence</b></p> <p>Olew / Oil Cyndicate – Rhoi parapapff ar wefan y Cyngor Cymuned a gweplyfr Cellan. <i>Put a paragraph on the Community Council website and on Cellan’s Facebook.</i></p> <p>Y Gardde – Codi’r tal i £40 y flwyddyn a rhoi cytundeb o 5 mlynedd iddynt. Angen siarad a Euros (cyn-gynhorydd) er mwyn cael mwy o wybodaeth am y darnau o dir. <i>Raise the rent to £40 a year and provide a 5 year contract to them. Need to speak with Euros (ex-councillor) as he would have more information about the parcels of land.</i></p> <p>Ynni Cymru – Mae grant ar gael ar gyfer cost 100% ar gyfer ynni cynaliadwy wrth Llywodraeth Cymru ond y dyddiad cau yw’r 18fed o Hydref. <i>There is a 100% Capital Grant available for renewable energy from the Welsh Government and the closing date is the 18<sup>th</sup> of October.</i></p> <p>Dwr-ffo yn redeg oddi ar yr hewl arno i dir Caer Cadwgan. Y Clerc i roi cwyn fewn i’r Cyngor Sir. <i>Run-off of water from the road onto Caer Cadwgan land. The Clerk to submit a complaint to the County Council.</i></p> <p>Holi i’r Cyngor sir am arwynebedd di-lithro ar cornel Caer Cadwgan. Y Clerc i roi ebost fewn i’r Cyngor Sir i holi am hyn. <i>Request for the bend by Caer Cadwgan to have a non-slip surface applied to the road. The Clerk to submit an email to the County Council asking for this.</i></p>	<p>Clerc</p>

f.	Ffair Gymunedol / Wellbeing Fair – Holi i Neuaddau Cellan a Llanfair os oes diddordeb gyda nhw. <i>Ask Cellan and Llanfair Halls whether they have an interest.</i>	
g.	Grantiau Cymunedol / Community Grants – Danfon y linciau ymlaen a’u rhoi ar y wefan. <i>Send the links forward and post on the website.</i>	
h.	Holiadur Bysus Cefn Gwlad / Rural Buses Questionnaire. Holi i Chris Lambert a fyddai’n foldon danfon ogwmpas. <i>Ask Chris Lambert whether she would be willing to distribute.</i>	
i.	Preasept / Precept : Trafod yn y cyfarfod nesaf / <i>Discuss at the next meeting.</i>	
<b>5.</b>	<b><u>Ceisiadau am Arian a Thaliadau / Requests for Money and Payments</u></b>	
a.	Laura Jones Internal Audit: £150.00 Cytuno i’w dalu / Agree to pay it.	Clerc
b.	Wildlife Project – Mae grant wedi cael ei wneud yn enw’r Cyngor Cymuned a fydd yn talu am yr offer yn y lle cyntaf ac yna’n hawlio’r arian nol. <i>A grant has been applied for in the name of the Community Council who will firstly pay for the equipment and then claim the money back.</i>	Clerc
<b>6.</b>	<b>Cynllunio / Planning</b>	
a.	A240668 Y Dyfodol – Change of use to Dwelling – Dim gwrthwynebiad / No objection	Clerc
<b>7.</b>	<b>Adroddiad y Cyngorydd Sir / County Councillor Report</b> Mae 4 ysgol gynradd dan fygythiad o cael eu cau, mae’r ymgynghoriad yn digwydd ar hyn o bryd. <i>There are 4 primary schools under threat of closing, the consultation is happening at the moment.</i>	
<b>8.</b>	<b><u>Unrhyw fater arall – Any other business</u></b>	
a.	Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Iau 7fed o Dachwedd am 7.30yh yn Neuadd Llanfair. <i>It was decided to hold the next meeting on Thursday 7<sup>th</sup> November at 7.30pm at Llanfair Hall.</i>	Clerc
b.	Cinio’r Cyngor Cymuned Dinner – New Inn Llanddewi Brefi 6/12/2024	Clerc
c.	Biniau Grit / Grit Bins – Mae rhein wedi mynd o Pentrefelin a Sarn Helen – angen holi i’r Cyngor os ydynt yn dod a rhai newydd yno. <i>These have gone from Pentrefelin and Sarn Helen – need to ask the Council whether they are being replaced.</i>	Clerc
d.	Croesawyd Simon Aldridge atom i eistedd fewn ar y cyfarfod gan fod ganddo diddordeb ymuno fel Cyngorydd. <i>Simon Aldridge came to observe the meeting as he has an interest becoming a Councillor.</i>	

Arwyddwyd.....

Dyddiad.....

**Llanfair Clydogau a Cellan Community Council**  
**BUDGET TO DETERMINE 2025-2026 PRECEPT**  
**1.4.2025-31.3.2026**

**Income**

	<b>Budget</b>
Balance bought forward (includes reserves)	4000
<b>Precept</b>	<b>£7000</b>
Grants	£0
Land Rent	£20
VAT repayment	£100
Interest	£1
Other	£0.00
<b>Total:</b>	<b>£11121.00</b>

**Expenditure**

	<b>Budget</b>
Clerk's Salary	£1,292.40
HMRC	£861.60
Insurance	£240
Expenses	£120
Translation	£300
S137	£1000
BDO + Audit	£500
Chairman's Allowance	£450
Equipment	£200
Membership OVW	£120
Poppy Wreath	£40
Hall Rent	£250
Kiosk Maintenance	£300
Notice Board	£0
Training	£500
Capel yr Erw	£300
St Mary's Church	£600
All Saints Church	£300
<b>Total:</b>	<b>£7374.00</b>

